Carpet, Rug and Upholstery Cleaning  
Car Battery Diagnosis, Jumpstarting & replacement. TV and computer Set Up.

**If you can't see what you need just ask**

**Contact Jon 07943 948173**  
**Based in Llanpumsaint**  
[Gwyrddenterprises@gmail.com](mailto:Gwyrddenterprises@gmail.com)



**Hafan Holistaidd**  
Holistic Heaven

Adweitheg / Reflexology  
Tyluno / Aromatherapy  
Massage  
Indian Head Massage  
Thermal-auricular (Ear  
candling) – Reiki.

**Meleri Brown MAR**

[mels.brown@hotmail.co.uk](mailto:mels.brown@hotmail.co.uk) 07855488660  
**Therapy Cyflenwol – Complementary Therapist**  
Penllwynuchel, Nebo, Llanpumsaint, Caerfyrddin,  
SA33 6LT

## Gwalia Garage

Peniel Road Rhydargaeau  
MOT, servicing, tyres, repairs  
Tel: (01267) 253599  
*JRB & K Thomas*  
*Peniel Road Carms SA32 7DR*



## Virtue Holistics

Holistic therapies  
Reflexology  
Indian head massage  
Functional facial.  
Megan Williams  
07717763460



Café Felinfach@Little Mill  
Equestrian

Opening hours: Tuesday - Sunday 9:30 - 15:30

Contact: [info@littlemillequestrian.co.uk](mailto:info@littlemillequestrian.co.uk)  
07951 601612

Tyres | Brakes | MOT | Clutches | Welding | Rally Preparation



Rhodri Evans – 07969654771  
Fronhaul Workshop, Llanpumsaint, Carmarthen, DS33 6LX



## MYRDDIN HERITAGE

From our field & from our friends,  
monthly delivery of Welsh products to your door

*Cynnyrch o Gymru* 

[www.myrddinheritage.wales](http://www.myrddinheritage.wales)

## *Cherish the Memories*

Wedding/Funeral Flower Preservation  
Memorial Jewellery



Breastmilk Jewellery  
& Keepsakes  
Pet Memorial Jewellery

The Watermill  
Llanpumsaint, SA33 6DA

[www.pandoras-keepsakes.co.uk](http://www.pandoras-keepsakes.co.uk)  
[www.facebook.com/PandorasKeepsakes](https://www.facebook.com/PandorasKeepsakes)



Graphic Design and Creative Services

Logo design, branding, marketing, posters,  
leaflets, invitations, social media imagery,  
illustration, custom artwork, and more...

Services available in print and digital

email Emily at : [bearman.creative@gmail.com](mailto:bearman.creative@gmail.com)

**Local Business?** You can advertise here for £50

Includes an advert in Village Voice for 6 issues, plus a webpage linked to yours on  
[www.llanpumsaint.org.uk](http://www.llanpumsaint.org.uk), or just £5 an issue for advertising in Village Voice.

Contact Carolyn Smethurst 01267 253308 or email [info@llanpumsaint.org.uk](mailto:info@llanpumsaint.org.uk)

*Much of the information contained within this newsletter has been provided by the contributors. Whilst every effort has been made to ensure that the information is correct, the committee of Llanpumsaint Community Information Exchange is not responsible nor liable for any actions taken from use of content and the opinions expressed within this newsletter.*



# Llais y Llan Awst 2024

**Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf Medi 26 2024**

Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol

[www.llanpumsaint.org.uk](http://www.llanpumsaint.org.uk) [info@llanpumsaint.org.uk](mailto:info@llanpumsaint.org.uk)



Diolchwn Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Brechfa am gefnogi Llais y Llan a [www.llanpumsaint.org.uk](http://www.llanpumsaint.org.uk) drwy roi £3,000 y flwyddyn am ddegawd – felly cyfanswm o £30,000



Dawnsio Llinell



Telor yr ardd ymysg triaglog coch ag ysgall (Clare Bishop)

# Dyddiadau i'ch dyddiadur

## Digwyddiadau un Tro

- **Sadwrn Awst 17eg - Gŵyl yr Afon - Caerfyrddin** - 0 3 0 tan 7.30
- **Sadwrn Awst 24ain - Sioe Ffermwyr Ifanc Cynwil Elfed**
- **Sadwrn Medi 7fed - Helfa Drysor Pwyllgor y Cae**
- **Nos Fawrth Medi 7fed - Cyngor Cymuned** – Neuadd 8 o’r gloch
- **Nos Wener Medi 13eg - Codi Canu** Neuadd 7 hyd 9.30 – Dewch a lluniaeth a diodydd + £2 at gost llogi’r Neuadd
- **Nos Wener Medi 20fed - Noson Cwis** - drysau’r Neuadd ar agor am 7 i gychwyn am 7.30. - £2.50 y person - timau o 5 - Dewch a diod a lluniaeth. Gwobrwyo mewn arian parod.
- **Nos Fawrth Medi 24ain - Cyfarfod Cyffredinol** y Neuadd gyda Phwyllgor i ddilyn.
- **Dydd Iau Medi 26ain - Bore Coffi a Chacen Macmillan** - Neuadd 10.30 hyd ganol dydd.
- **Dydd Iau 3dd hyd Sadwrn 5ed Hydref - Gŵyl Cwrw a Seidr CAMRA** - Neuadd San Pedr Caerfyrddin.
- **Nos Sadwrn Hydref 5ed - Swper y Cynhaeaf gyda’r Eglwys** yn y Neuadd, o 7 pm. Pris y tocynnau yw £12.50 a £6 i blant dan 12 oed.
- **Nos Wener Hydref 11eg - Codi Canu** Neuadd 7 hyd 9.30 – Dewch a lluniaeth a diodydd + £2 at gost llogi’r Neuadd
- **Nos Wener Hydref 18fed - Noson Cwis** - drysau’r Neuadd ar agor am 7 i gychwyn am 7.30. - £2.50 y person - timau o 5 - Dewch a diod a lluniaeth. Gwobrwyo mewn arian parod.
- **Nos Sadwrn Hydref 19eg - El Sheeran, Noson Teyrnged i Ed**, digwyddiad codi arian ar gyfer Neuadd y Pentref, yn dechrau am 7.30 pm. Tocynnau £15 oddi wrth Mathew 07970 030 679
- **Nos Wener Tachwedd 8fed - - Codi Canu** Neuadd 7 hyd 9.30 – Dewch a lluniaeth a diodydd + £2 at gost llogi’r Neuadd
- **Nos Fawrth Tachwedd 12fed – Cyfarfod arferol y Cyngor Cymuned** – Neuadd 8 o’r gloch.
- **Nos Wener Tachwedd 15fed - Noson Cwis** - drysau’r Neuadd ar agor am 7 i gychwyn am 7.30. - £2.50 y person - timau o 5 - Dewch a diod a lluniaeth. Gwobrwyo mewn arian parod.

## Digwyddiadau wythnosol

- **Bowlio Dan-Do** - Neuadd – Nos Lun a Nos Iau – 7.30 hyd 9.30 (ail-gychwyn Medi 2ail)
- **Caffi Bach** - Eglwys Llanpumsaint - **Dydd Mawrth** 11.30 gorffen gweini 2.00
- **Dawnsio Llinell** – Neuadd – **Nos Fawrth** 7 o’r gloch.
- **Cwtsh Cynnes** – Neuadd - Dydd Iau 10 tan 1 o’r gloch – celf, crefftau, cardiau, tennis bwrdd, a mwy i’w dilyn gan de cartref. Croeso i bawb ac ail-ddechrau ar y 5ed o Fedi.
- **Dosbarth Cylich Redeg** – Neuadd – **Mercher** o 7 hyd 8 a **Sul** o 10 hyd 11yb
- **Cylch Celf** - Neuadd - **Sadwrn** 10 hyd 12 canol dydd.

## Gwasanaethau Crefyddol

- **Eglwys Llanpumsaint - Ewcharist Sanctaidd** am 9 o'r gloch fore Sul
  - **Hwylol Weddi** – Nos Lun 5.30
  - **Chwarae gyda Duw** – dydd Mawrth 3.30 tan 5.00 – stori, gweithgaredd a rhywbeth i fwyta i blant gyda'u rhieni adeg y tymor.
  - **Cylch DOT** - Plant dros 10 oed - Eglwys Dydd Iau 6 tan 7.30 adeg y tymor ysgol.
- Llanllawddog a Celynin Bronwydd 11 bore bob Sul  
Cysylltydd – Tad Tim Nelson 07368 496917 timnelson@cinw.org.uk  
Tudalen Facebook: Llanpumsaint Bronwyddand Llanllawddog Churches
- **Capel Caersalem** Am wybodaeth y gwasanaethau cysylltwch ag Eleri Morris 01267 253895.
- **Capel Ffynnonhenri** - Am wybodaeth y gwasanaethau cysylltwch â Danny Davies (Trysorydd) 01267 253418 neu Gwyn Nicholas (Ysgrifennydd) 01267 253686
- **Capel Nebo** - Gwybodaeth am wasanaethau oddi wrth Meinir Jones (Ysgrifenyddes) 01267 253532

## Gwasanaethau wythnosol y pentref

- Dydd Mawrth - **Cerbyd y Swyddfa Bost** - 2 hyd 3.45 o'r gloch – Gyferbyn a'r tafarn
- Dydd Mercher – **Gwasanaeth newydd** – Milfeddyg MiMobile yn ymweld tu allan i'r Neuadd o 3.30 hyd 5.45. Am apwyntiad galwch 01267 220404
- Dydd Mercher – **Cerbyd y Llyfrgell** 11.15 hyd 11.45 ger y Neuadd - 11.45 hyd 12.15 ger y tafarn – [ymweliadau unwaith bob tair wythnos – 4 Medi, 25 Medi, 16 Hydref, 6 Tachwedd](#)
- Dydd Mercher - **Cogydd Bara** - gwasanaeth i'r tŷ - 07971 740505
- Dydd Mercher - **Pysgod** - gwasanaeth i'r tŷ - 07779 987305
- Dydd Iau - **Ffrwythau a llysiau** - gwasanaeth i'r tŷ - 07969 047045
- Dydd Gwener – **Cerbyd y Swyddfa Bost** - 1 hyd 3 o'r gloch – Gerllaw'r Tafarn.



## Lleoliadau'r Adfywiwr lleol: wastad ar agor 24 awr y dydd.

- **Tu fas y Neuadd Goffa** – SA33 6BZ
- **Tu fas Tafarn y Railwe** - SA33 6BU
- **Ar wal fferm Henfryn Ffynnonhenri** – SA33 6LD
- **Tu fas Festri Capel Nebo** - SA33 6HN

## Hedydd - Adeiladwr heb eu ail!

Ni welir mwyach yn Llanpumsaint y bys bawd siriol o flaen y cap a'r fag, wrth i gerbyd Mazda wibio heibio gyda Hedydd ar ei ffordd i jobyn arall. Llifo gwnaeth y teyrngedau iddo ddydd ei angladd ar ddydd Gwener 22ain o Orffennaf yn Eglwys Llanpumsaint, lle claddwyd ef, ac yn y Neuadd wedyn.

Yn 77 oed ef oedd yr hynaf o blant Glyn a Mari Rees, wnaeth symud lawr 'ma i redeg tafarn y Railwe yn 1969, a'i droi 'n ganolfan gymdeithasol lewyrchus. Cafodd eu plant ddylanwad sylweddol hefyd ar fywyd yr ardal. Datblygodd Hedydd yr hynaf yn adeiladwr o fri, sefydlodd Wil Dyfed Alarms aeth o nerth i nerth, tra gwelwyd Twm yn tyfu i fod ein prif drydanwr lleol, a bu Gwen yn fam i Dafydd y peldroediwr rhyngwladol.

Yn ei theyrnged yn yr Eglwys cadarnhaodd Natalie ei wyres, cymaint fu dyled y teulu i Hedydd am eu holl ofal drostynt ac am ei deyrngarwch cyson i Morwena yn ei hafiechyd dros 54 blwyddyn o fywyd priodasol. Dyn tawel oedd e', yn weithiwr manwl a chaled wrth ei shift, gyda diddordeb mewn hanes pan oedd cyfle. Gall y teulu bwyntio bys at ryw waith cerrig yn rhywle a dweud gyda balchder "Tadcu wnaeth hwnna!" Gall eraill hefyd ymfalchïo yn ei waith carreg gelfydd. Yn hunan-ddysgedig 'roedd ganddo lygad arbennig am garreg. Tra byddai eraill yn pigo lan a gwrthod - rhy fawr - rhy fach - siâp anghywir - dewis yr un iawn bob tro wnâi Hedydd.

Er y golled erys ei waith yn deyrnged iddo. Tro nesa' ewch chi lawr Rhyw Graig, ar y tro olaf edrychwch ar y wal ar y chwith. Dyna Hedydd i chi!

**Arwyn 2024**



## Eglwys Llanpumsaint

Sadwrn Awst 31ain - Mae'r Parch Tîm yn estyn gwahoddiad i ymuno ag aelodau San Pedr ar daith i Lansteffan. Cysylltwch â Nigel Ifans warden Eglwys San Pedr 07969 448659 os am ymuno.

Swper y Cynhaeaf yn y Neuadd Bentref ar ddydd Sadwrn 5 Hydref, o 7 pm. Pris y tocynnau yw £12.50 a £6 i blant dan 12 oed.

## Teyrnged i'r diweddar Dewi Jones

Gyda thristwch, cofnodwn farwolaeth Dewi Jones, brodor o ardal Llanpumsaint a fu yn byw yma ei holl fywyd. Ganwyd adeg yr Ail Ryfel Byd ar Fferm y Bettws, ardal Nebo, mab y diweddar Henry a Mary Jones. Roedd ganddo dair chwaer a brawd- Hannah, Dinah, William a Margaret.

Lleolir y fferm ar wylfan uwch llinell y rheilffordd, sydd nawr yn enwog fel Rheilffordd y Gwili. Fel pob fferm yr adeg hynny, roeddent yn tyfu eu bwyd eu hunain, yn hunan-gynhaliol, â'r plant yn gweithio'n ddyfal i helpu. Er yn waith caled, ni fyddai'r plant yn cwyno, gan iddynt ddeall gwerth y gwaith. Bu Dewi a'i frawd a'u chwiorydd yn mynychu Ysgol Gynradd Cynwyl Elfed, a thaith gerdded dyddiol ydoedd i'r ysgol- lawr drwy ddyffryn coediog, serth - lawr y llethri yn rhwydd yn y bore, ond blinedig oedd dringo nôl adre yn y prynhawn. Dyddiau da oedd rhain, serch bod cwmwl rhyfel yn gysgod arnynt.

Wedi'r ysgol gynradd, aeth Dewi ymlaen i Ysgol Uwchradd y Grange yng Nghaerfyrddin ble bu tan bron yn 16 mlwydd oed.. Wedi hynny, roedd ei yrfa wedi ei dynghedu mewn amaethyddiaeth, a dechreuodd ddysgu sgiliau newydd dan adain ei dad. Dysgodd amrywiaeth o sgiliau, a dysgodd wir ystyr gwaith caled, codi gyda'r wawr i odro'r gwartheg, fel ei fod yn gallu sicrhau bod y llaeth ar ben yr heol ar y stand laeth cyn 8 o'r gloch y bore. Ceffyl a cart oedd y modd i wneud hyn. Wedi hynny, roedd diwrnod hir o waith ar y fferm iddo.

Dros y ddeng mlynedd nesaf, byddai yn parhau i weithio'n galed i gynnal y fferm gyda chymorth ei frawd a'i chwaer.

Yn ystod yr amser hyn, bu gwrrd â Florence, a fe briodwyd y ddau ym 1967 yn Eglwys Llanpumsaint. Symudodd i Fronheulog, ble bu yn byw am 55 mlynedd yn ffermio'r tir a magu ei deulu..

Pan nad oedd yn ffermio, ymgymrodd â rôl arall fel y torrwr beddau lleol. Gyda ei frawd, William, byddai'r ddau yn cael eu galw yn rheolaidd i dorri beddau, nid yn unig yn y mynwentydd lleol, ond mewn ardal ehangach ar draws Sir Gaerfyrddin. Heb geibiwr mecanyddol o gwbl, y gaib a'r rhaw oedd eu

teclynnau gwaith, yn cerfio pob bedd yn ofalus yn y siap draddodiadol, gyda gofal a pharch i'r meirw.

Roedd ganddo deyrngarwch dwfn tuag at Eglwys Llanpumsaint, ble bu yn warden am nifer o flynyddoedd, yn fyddlon bob Dydd Sul gyda Florence, a oedd yn organyddes yn yr Eglwys.

Ardal Llanpumsaint oedd ei filltir sgwar, a roedd yn hapus yn byw ac yn gweithio yn y gymuned hon.

Addas oedd, felly, ei fod wedi ei osod i orffwys yma ar yr 22ain o Fehefin yn dilyn gwasanaeth parchus â fynychwyd gan deulu a ffrindiau.

**Verona Clift a Pamela Jones**



## **Pwyllgor Lles ac Adloniant Llanpumsaint**

Gobeithiwn am dywydd hafaidd dros yr wythnosau nesaf er mwyn i bawb fwynhau defnyddio'r Cae Chwarae.

Diolch i bawb wnaeth gefnogi'r Dydd Hwyl - bu'n ddiwrnod arbennig i'r pentref, a hyfryd gweld yr holl bwyllgorau'n cyd-dynnu i alluogi codi £540 i bob un o'r 4 pwyllgor. Daeth newyddion rhyfeddol fod Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Brechfa wedi neilltuo £6000 at gynnal a chadw - cywiro ac ymwneud nifer o bethau - megis atgyweirio'r sied storfa, basged newydd siglo i'r adar, ac atgyweirio'r rhwydi peldroed a thenis. Diolch unwaith eto am y rhodd.

**Digwyddiad nesaf – Helfa Drysor – Sadwrn 7fed Hydref.** Bydd y car cyntaf yn gadael y Neuadd am 3 o'r gloch a'r olaf am 4. Bydd y daith hefyd yn gorffen yn y Neuadd gyda bwyd i ddilyn a'r Bar ar agor. Ymunwch a thudalen newydd Facebook er mwyn gwybod am y gweithgareddau nesaf.

Fel arfer rydym yn chwilio am wirfoddolwyr newydd at gynnal a chadw a chodi arian i'r Cae, felly os am roi cynnig arni cysylltwch drwy E-bost [parcllanpumsaintpark@gmail.com](mailto:parcllanpumsaintpark@gmail.com) neu siarad ag Aaron Jones (07814157946) neu aelod o'r Pwyllgor.

## **Cyngor Cymuned Llanpumsaint**

Cadarnhaodd y Cyngor Adroddiad Blynyddol 2022 – 3. Gellir dod o hyd iddo gyda'r Munudau am bob cyfarfod ers 2010 ar wefan y Cyngor.

<https://llanpumsaint.org.uk/communitycouncil/en/>

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth Medi'r 10fed am 8 o'r gloch yn y Neuadd. Os am gynnig pwnc trafod i'r agenda, gyda cyniatad y Cadeirydd, dylid ei dderbyn erbyn 31 Awst. E-bost i [llanpumsaintclerc@btinternet.com](mailto:llanpumsaintclerc@btinternet.com), neu nodyn i flwch post ger mynedfa Pantycelyn.

**Angela Bearman – Clerc Cyngor Cymuned Llanpumsaint**

## **Bowlio Dan-Do Llanpumsaint a Nebo**

Yn dilyn hoe fach haeddiannol edrychwn ymlaen ar groesawi'r hen a'r newydd ar Nos Lun Medi'r Ail. I ddilyn tymor llwyddiannus yn yr AIL Adran dychwelwn i'r Cyntaf i wynebu her newydd. Daw gem gyntaf y Gynghrair ar Fedi'r 9fed, yna bydd y rhestr lawn yn cyrraedd erbyn diwedd Awst.

Mae'r Clwb yn parhau i gyfarfod yn y Neuadd i ymarfer bob nos Lun a nos Iau o 7.30 tan 9.30 o fis Medi tan ddiwedd Ebrill. Mae croeso i chwaraewyr newydd 0 11 oed tan 99. Mae yna hyfforddwy trwyddedig yma i annog a chymorth.

*Am wybodaeth bellach ffoniwch ein Cadeirydd Derick Lock ar 01267 253524 neu ein hysgrifenyddes Jill Edwards - 01267 2534.*

## Dewinwyr Gorllewin Cymru

Mae dewinio'n ymarfer defnyddiol a diddorol ac yn hawdd i'w ddysgu. Credir iddo gychwyn yn yr Aifft neu hyd yn oed yn gynharach. Gwelir cwmnïau'n defnyddio dewinwyr profiadol i ganfod dŵr, mwynau, olew, gwifrau trydan ac yn y blaen. Gwelir rhai yn dewinio iechyd eu bwyd, neu ganfod straen geopathig yn yr amgylchfyd, ond cred bersonol yw hyn heb gadarnhad gwyddonol hyd yn hyn. Pam na ymunwch a ni i ganfod pethau dros eich hunan. Fel arfer down o hyd i amser ar ddiwedd ein cyfarfodydd i roi gwers fer, neu'n well fyth dowch ar un o'n hymweliadau

Cyfarfodydd i ddod yn Neuadd Bronwydd am 1.45 - 2 o'r gloch

- Sul Medi 22ain; - Sid Howell – Dr William Price, The Welsh Druid
- Sul Hydref 27ain.- Tony Ryan – Sut i wneud Bwgan
- Sul Tachwedd 24ain - Bydd Ros Briagha yn ôl gyda sêr-ddewiniaeth gyfoes

Ar Sul y 18fed o Orffennaf elwodd yr aelodau ar dywydd sych ar daith i weld cylch Eisteddfodol Llanbedr ac yna at domen neolithig ar dir y Coleg. Ymlaen wedyn i ymweld â dwy ffynnon sanctaidd - Llandre a Llanwrda - yr ail yn gysegredig i Sant Gwyndaf. Yn dilyn cinio gwesty ger yr afon ymlaen wedyn ar hyd yr heol Rufeinig Sarn Helen a chyrraedd y carn hynod Carreg y Bwci gan fwynhau'r golygfeydd syfrdanol. *Sandy Mather*



Carreg y Bwci



## Clwb Gwili Chwedeg

Mae hwn yn fudiad llewyrchus sy'n cynnal gweithgareddau mewnol bob mis ynghyd ag amrywiaeth o deithiau drwy'r flwyddyn, gan gynnwys y Twrci a Thinsel 4 Diwrnod yn Nhachwedd. Dros y blynyddoedd buom yng Nghernyw, Dyfnaint a Gwlad yr Haf.

Ar ddydd Llun 22ain o Orffennaf daeth Paul Raven o'r Tea Traders Cafe yn y Clos Mawr Caerfyrddin i siarad. Cychwynnodd drwy son am chwedl - yn 2737 c.c eisteddai'r Ymerawdwr Tseiniaidd Shen Nung dan goeden wrth i un o'i weision ferwi dŵr yfed pan chwythodd rhai o'r dail i mewn i'r dŵr. Penderfynodd Shen Nung, oedd yn llysieuydd enwog, flasu'r dŵr gan ei fwynhau. Oesoedd wedyn masnachwyd y cynnyrch gyda nifer o wledydd eraill gan gynnwys Prydain lle daeth y boneddigion yn hoff iawn ohono ar wahân i'r pris. Nid oedd y Tseiniaid yn awyddus o rannu'r coed hyn ond fe lwyddodd botanegwyr i gipio rhai a chyda cymorth yr East India Trading Company llwyddo i'w plannu a thyfu yn India. Yn ein cyfarfod cawsom flasu 4 math - gwyn, gwyrdd, oolong a du. 'Roedd gan bob un amser gwahanol i fragu, a'i yfed heb laeth ar wahân i'r un du. Dyma sail cymaint o'n hoff fathau o de heddiw.

**Cyfarfodydd nesaf** i'w cynnal yn Neuadd Bronwydd am 2 o'r gloch – Maes Parcio'n brysur.

- Mercher Medi 4dd - Taith i ganolfan siopa Macarthur Glen ac yna i Borthcawl gyda chyfle i grwydro tua lan y môr a'r siopa a mwynhau sglodion a physgod cyn dychwelid.
- Llun Medi 23ain - Debora John - Seintiau a Phechaduriaid
- Llun Hydref 28ain - David Evans - Siarad am y Llysoedd.

Aelodaeth blwyddyn £10 - Tal mynediad £2 i gynnwys tocyn raffl. Rhagor o wybodaeth oddi wrth yr ysgrifenyddes Val Giles 01267 281194.

## Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri

Mae'r Neuadd yn datblygu i fod yn sefydliad defnyddiol dros ben i'r gymuned. Mae yna ddau fudiad cyson newydd; Y Cylch Celf (Bore Sadwrn) a Dawnsio Llinell (Nos Fawrth).

Dechreuodd y **Dawnsio Llinell** yn gryf yng Ngorffennaf gyda 20 aelod. Mae'n cynnig llawer sy'n iachus i bob oed a gallu; megis cryfhau'r cof (yn enwedig pan na allwch weld yr arweinydd), cydbwysedd a chydymud (pe gallwn), yr holl daro traed yn cryfhau'r esgyrn, symudiadau cyflym yn dda i'r galon, a chydymud gydag eraill yn fuddiol i'r tymer. Felly rhwydd hynt i chi ddod i roi cynnig arni. *lahw*

**Bydd y Cwtsh Cynnes** yn ail gydio ynddi ar fore lau am ddeg o Fedi'r 5ed ymlaen. Bob pythefnos cynhelir sesiynau crefft dan law Gofal Crefft gyda chefnogaeth Cronfa Fferm Wynt Brechfa. Ar yr wythnosau eraill bydd aelodau yn cymerid y llyw neu bawb at y peth a fo. Mae'r Cwtsh yn ffordd ddelfrydol i gwrdd â hen gyfeillion neu rhai newydd o amgylch y pentref. Felly os ydych ar gael ar fore lau trowch i mewn am glonc fach a phaned.

Ar **Ddydd lau Medi'r 26ain** Bydd y Cwtsh Cynnes yn cynnal bore codi arian i **Macmillan gyda choffi a chacen**, fel rhan o ymgyrch genedlaethol. Mae'r elusen hon yn cynnig gwybodaeth ynghyd a chefnogaeth ymarferol ac emosiynol i'r rhai'n dioddef o gancr a'u teuluoedd. Bydd y digwyddiad yn hollol agored i bawb, felly croeso i droi i mewn rhywbryd rhwng 10 y bore a chanol dydd.

## Clwb Celf

Odi chi'n edrych am safle hamddenol anfeirniadol er mwyn ymarfer eich doniau creadigol? Felly gallai'r Clwb Celf yn ateb perffaith i chi. Nid dosbarth yw hwn- 'does 'dim gwersi ffurfiol, na disgwyliadau na beirniadaeth na phwysedd. Ein bwriad yw cynnig dihangfa, a chyfle i ymlacio wrth ymchwilio i'ch ochr greadigol. Dewch a'ch defnyddiau celf eich hunan i ddewis beth bynnag ydych am greu - gall fod yn ddarlun, neu baentio, caligraffeg, gwniadwaith, gwynio, llyfr sgrap neu liwio. Mae'r dewis yn hollol agored a lan i chi.

Mae'r Clwb i bawb beth bynnag fo eu profiad neu eu diddordeb creadigol. Rydym yn griw cyfeillgar, yn barod i gloncian a chael cacen wrth greu ein cynllun. Felly dewch i ymuno a rhwydd hynt i'ch dychymig.

Bob Dydd Sadwrn – Neuadd Llanpumsaint –  
10 – 12 o'r gloch - £5 y tro - Oed 18 lan

**Emily Bearman**



## Cyfarfod Cyffredinol y Neuadd - Chwilio am ymddiriedolwyr a gwirfoddolwr i weithredu fel Ysgrifennydd Cwmni.

Nodwch fod y Cyfarfod Cyffredinol wedi ei newid i Fedi 24ain ac rydym yn chwilio am ymddiriedolwyr newydd a/neu gynghorwyr. Rydym yn chwilio am rywun gyda phrofiad o sgiliau rhedeg cwmni, i gadw'r Neuadd yn weithredol gyfoes. Ni fydd angen i'r person gymerid munudau mewn cyfarfodydd, ac nid o reidrwydd iddo fod yn ymddiriedolwr.

Os am ymuno a'r pwyllgor bywiog yma cysylltwch â'r ysgrifenyddes [clarebish@yahoo.co.uk](mailto:clarebish@yahoo.co.uk)

## Codi Canu

Bydd y codwyr canu yn ail ymgynnull wedi egwyl yr haf ar Nos Wener Medi'r 13eg yn Neuadd Llanpumsaint o 7 tan 9.30 o'r gloch. Wedi hynny byddwn yn cwrdd ar yr ail Nos Wener bob mis - Gwener Hydref 11eg - Gwener Tachwedd 8fed - Gwener Rhagfyr 13eg.

Yr amseroedd yw 7pm - 9.30pm a gofynnwn i chi ddod â'ch diodydd a'ch byrbrydau eich hun. Byddwn yn cyd-ganu â chaneuon o'r 60au, 70au ac 80au a oedd ar frig y siartiau bryd hynny. Mae croeso i bawb ymuno â ni a phrofi'r llawenydd o wrando neu ymuno â cherddoriaeth wych.

**Carolyn Atkinson**

## Noson Cwis

Ar ôl 7 mis cafwyd hoe fach i bawb ym mis Awst, a chyfle i feistri'r cwis gael cyfle i ail gydio ynddi cyn mis Medi. Hoffwn ddiolch i bawb wnaeth ein cefnogi hyd yma, ta sawl tro wnaethoch ddod. Oherwydd y gefnogaeth llwyddom i godi dros £200 i'r Neuadd, a chyda'ch presenoldeb rydym yn hyderus y gallwn wella eto ar y swm yna eleni.

Yn y gynghrair mae'r tri cheffyl blaen wedi newid safle bob tro hyd yma. Ar hyn o bryd mae'r tîm ar y brig wedi llwyddo cael cyfartaledd o 68.9, yr ail gyda 68.7 a'r trydydd ar 68 - mae'n wirioneddol agos! Hefyd ond 6 pwynt sydd rhwng y 4dd a'r 9fed safle, felly pwy a wŷr beth nesaf. Hefyd mae yna 3 tîm sydd ond wedi bod yma unwaith wedi llwyddo cyrraedd y 10 uchaf.

O ystyried hyn oll, ar wahân gwobrwyo'r goreuon penderfynwyd gwobrwyo'r timau gyda'r sgôr uchaf yn ystod y flwyddyn, felly mae'n agored iawn o hyd.

I'r Dyddiadur:

- Nos Wener Medi 20fed - Dathlu ailgydio yn y Cwis
- Nos Wener Hydref 18fed Noson Calan Gaeaf – Gwisgo lan gan wobrwyo'r goreuon.
- Nos Wener Tachwedd 15fed – Y cwis olaf ond un
- Nos Wener Rhagfyr 20fed - Cwis Parti Nadolig gyda gwobrwyo ychwanegol a chyhoeddi'r enillwyr terfynol.

Gobeithio eich gweld yma!

**Sara & Darrell**

## Clwb Garddio Bronwydd a'r Cylch

Mae'r clwb yn cyfarfod unwaith y mis, croeso i bawb. Dechrau am 7.30pm, felly cyrhaeddwch 7.00 – 7.30, codir ffi fechan ar ymwelwyr.

Y cyfarfodydd nesaf yw:

- **Dydd Mawrth Medi 17eg - Abel Pearson - Glasbren** - mudiad cymdeithasol gwirfoddol i ddiwygio ein ffordd o fyw, bwyta a thyfu. Ail-fywiogi ein cymunedau, y bobl sy'n byw ynddynt a'r tir rydym yn dibynnu arno. Daeth cyfle unigryw yn 2023 i stiwardio dros dymor hir 134 erw o dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ychydig filltiroedd i'r de o Llansteffan - Parc yr Arglwydd. Credwn fod tyfu cnydau gyda'n gilydd yn ffordd bwerus i'n hysbrydoli at gysylltiad newydd a'n byd. Mae bwyd yn ein clymu i'r ddaear, ein hadau a'n tirwedd. Rydym wedi ein hysbrydol ac yn angerddol i wneud yr hyn allwn i greu ynys o heddwch a bioamrywiaeth, cymuned sy'n ffynnu a chynnal, sy'n gynhyrchiol a ffrwythlon gyda phobl amrywiol yn cynnal y tir.
- **Nos Fawrth Hydref 15fed - Stephanie Hafferty - Garddio heb Geibio**

## **Cylch Meithrin Bronwydd**

Y tymor hwn, bu'r plant yn treulio llawer o amser yn ein gardd yn chwarae yn y tŷ bach twt a'r gegin fwd. Buont hefyd yn plannu tatws cyn yr hanner tymor ac yn eu tynnu yr wythnos olaf cyn gwyliau'r haf. Roeddent yn synnu gweld cymaint o datws, a fe'u gwerthwyd i'r rhieni yn ein parti diwedd tymor.

Ar y 14eg o Fehefin, cafwyd ein trip blynyddol i'r Ardd Fotaneg yn Llanarthne i wyllo Sioe Feithrin Dewin a Doti gyda gwestai arbennig - Martyn Geraint. Braf oedd yr adloniant a roedd Martyn Geraint yn arbennig fel arfer yn canu, diddanu'r plant â'i storiâu difyr a sioe bypedau. Roedd ei gân "Mae siarad Cymraeg fel magic" yn aros yng nghôf y plant.

Buom yn hybu'r Cylch yn y gymuned ar 29ain o Fehefin drwy ymuno â Diwrnod Hwyl Llanpumsaint. Diolch yn fawr i Euros Davies am noddi ein stondin. Tynnwyd ennillwyr ein cystadleuaeth "Enwi'r octopws" ac "Enwi'r seren fôr" yn ein parti diwedd tymor. Ennillydd yr octopws oedd Lleucu Evans gyda'r enw "Orla" ac ennillydd y seren fôr oedd Dyfan Davies gyda'r enw "Scarlet".

Braf oedd croesawu Hefin, Edryd ac Aled o "Llaeth Derlwyn" i ein parti diwedd tymor. Roedd plant y Cylch yn mwynhau dewis gwahanol flasau o ysgytlaeth .

Bydd y tymor nesaf yn dechrau ar Ddydd Mawrth, 3ydd o Fedi, a'r sesiwn Ti a Fi nesaf ar Ddydd Gwener y 6ed o Fedi. Mae llefydd ar gael yn y Cylch ar gyfer plant 2 a 3 oed - *cysylltwch â Verona ar 07929 431652 am fwy o wybodaeth os gwelwch yn dda.*

## **Cofrestri Gorfodol Ieir ac Adar Dof eraill**

Wedi'r 1af o Hydref 2024 bydd yn gyfraith yn Lloegr a Chymru i gofrestri am Rif Eiddo'r Plwyf ac felly cofrestri am gadw ieir ar Gofrestr Ffowls, ac eithrio'r rhai a gedwir yn anwes ac yn byw dan-do heb gyfle i fynd allan.

Felly os oes gennych rhai ffowls neu hwyaid tua'r ardd bydd rhaid eu cofrestri erbyn y 1af o Hydref eleni. Cewch Rif Eiddo'r Plwyf drwy fynd ar RPW ar y we neu ffonio 0300 062 5004. Oes angen bwyell i gracio wy?

***Carolyn Smethurst***

## Y Balsam Himaleuaidd

Dechreuodd nifer fach ohonom ymosod ar y balsam melltgedig yma yn y Cae Chware sydd wedi cymerid drosodd ar hyd arfordir yr afon a'r cloddiau. Dyma elyn sy'n tagu'r tyfiant lleol, fel y gwelwn ar yr heol fawr tua'r dre.

Yn Llanpumsaint mae gennym gyfle i'w gadw dan reolaeth, felly ewch ati i'w dynnu o'r gwraidd (mae'n weddol haws) cyn i'r hadau ddsbarthu. Rhowch ef ar y llawr i sychu a gwywo. ***Ond byddwch yn ofalus ar ochr yr heolydd.***



## Hwyaden Ddirgel ar llwyfan y llyn

Wedi bod i ffwrdd am ryw wythnos gwelsom wedi dychwelid nyth hardd heb ei defnyddio ar y llwyfan ganol y llyn. Pa aderyn luniodd hwn heb ei defnyddio wedyn?

Felly holwyd nifer o arbenigwyr adar gan gynnwys yr Athro Chris Perrins yn Rhydychen. Y farn bendant fu oedd mai Cwtiar fu yma. Nid ydym wedi clywed un ar y llyn, felly oes yna rywun wedi clywed un yn lleol? Felly ble aeth y gwtiar hon wnaeth lunio'r fath nyth gymhleth? Ond y peth tristaf fu i'r gwynt godi un nos i chwythu'r nyth odd iar y llwyfan llyn.

*Carolyn Smethurst*



## Adar Ymfudo yn Llanpumsaint


Fel rhan o weithgaredd y Dydd Hwyl trefnodd y Cyngor Cymuned a Bioamrywiaeth Llanpumsaint cwis adar. Rhoddwyd sylw arbennig i adar sy'n ymfudo a'r pellteroedd maent yn hedfan i gyrraedd Llanpumsaint. Ymysg yr ymwelwyr a welwyd yma adeg y gwanwyn a'r haf oedd - Sif-saf, Telor yr helyg a'r Capan du - rhain wedi hedfan 2500 milltir o ogledd a gorllewin Affrica. Yna'r gwcw, Gwybedog mannog, Corhedydd y coed, Troellwr mawr a Gwennol y bondo wedi teithio dros 5000 milltir o ganol yr Affrig, ond y Wennol ddu a'r gwennoliaid wedi gwneud rhwng 6000 a 7000 o dde ddwyrain Affrica.

Mae'r gamp ymfudo hyn yn fwy hynod fyth o ystyried mae rhyw 20 gram yw eu faint bod wedi hedfan dros anialwch, goresgyn colli safleoedd nythu a holl gymhlethdodau'r newid hinsawdd.

Felly estynnwn groeso twym galon iddynt i'w denu yn ôl yma flwyddyn nesa i'r un nyth, bondo, gallt neu glawdd. Fe gadwan ddod am flynyddoedd. Rhwng 2 a 4 blwyddyn yw oes arferol aderyn bach, ond cofnodir i un wennol oedd yn byw'n wyllt gyrraedd 21 blwyddyn, gwennol y bondo 15 a gwennol 11 blwyddyn.

Mae yna ddiweddarau ynghyn a bywyd gwyllt ar Facebook - <https://www.facebook.com/groups/262032303472937>

Gwennol y bondo



Y gwcw'n cael ei herlid gan gorhedydd y waun – Blaen Duad (Clare Bishop)

## Arolwg Blynyddol y Ddol

Gwnaeth y Tîm Bioamrywiaeth y Cyngor gyflwyno canlyniadau o 6 cae yn Llanpumsaint i Ymchwiliad y Ddol Farw. Chwynwyd yr arolwg gan Gylch Dolydd Sir Gar, er mwyn codi ymwybyddiaeth a diddordeb o dir glas a chofnodi amrywiaeth porfeydd.

Ychwanegwyd cae nas porwyd i'r rhestr oedd yn cynnwys 29 math o blanhigion. Ar gychwyn mis Gorffennaf bu'r cae hwn yn drysorfa o fwyd i'r adar; megys Telor yr ardd, , Sif - Saf, Telor yr helyg, Capan du, Nico, Clochdar y cerrig, Cacynen. Glöyn, Gwynfyn a'r Glöyn.

Datgelwyd canlyniadau annisgwyl gan safle newydd arall. Darn o borfa oedd hon yng nghornel gogledd dwyreiniol y Cae Chwarae sydd nawr wedi ei adael heb dorri fel rhan o gynllun Cwm Arian. Diddorol fu gweld cymaint o amrywiaeth yn tyfu mewn ardal mor fychan, gyda'r cyfle nawr i gyfoethogi'r amgylchfyd lleol. Gwelwyd cyfanswm o 17 planhigyn, gyda 5 ohonynt yn nodweddiadol o ardaloedd porfa: gan gynnwys Y Blodyn melyn, Llygad y dydd, Serenllys bach a Meillionen goch.

Corryn yn gwyllo ei phraidd yn y Cae Chwarae



## Ugain Milltir yr awr

Mae'r Cyngor Sir yn gwahodd preswylwyr i gynnig eu barn ar ba heolydd a ddylid dychwelid i 30 milltir yr awr. Mae gennych hyd at ddiwedd Awst i ymateb ar wefan y Cyngor - bydd dan Wasanaethau'r Cyngor.

Os ydych yn cefnogi 20 milltir yr awr yn eich ardal mae'r Cyngor hefyd yn awyddus i glywed wrthoch – e-bost i [20mphspeedlimits@carmarthenshire.gov.uk](mailto:20mphspeedlimits@carmarthenshire.gov.uk)

**NEUADD LLANPUMSAINT  
LLANPUMSAINT HALL**

**TRIBUTE NIGHT**



**NOS SADWRN / SATURDAY  
19/10/2024 @ 19:30**

**I ARCHEBU TOCYN,  
CYSYLLTWCH Â  
MATHEW  
07970 030 679**

**TO ORDER TICKETS  
PLEASE CONTACT  
MATHEW  
07970 030 679**

**TOCYN  
£15**

**TICKET  
£15**